

Tasg 1

Gwleidydd ifanc

1.

Argraffwch y datganiad os yw hi'n bosibl.

Gyda phartner, **anodwch** y datganiad drwy ddangos y rhannau canlynol:

- Pennawd
- Cyflwyniad cyffredinol
- Gwybodaeth ychydig yn fwy manwl am gefndir ac addysg
- Dyfyniad gan yr ymgeisydd
- Dweud beth yw barn yr ymgeisydd am y sefyllfa ar hyn o bryd
- Dweud beth mae'r ymgeisydd yn ei addo.

2.

Beth yw manteision ac anfanteision bod yn ymgeisydd ifanc? Nodwch nhw yn y tabl yma:

| Manteision bod yn ymgeisydd ifanc | Anfanteision bod yn ymgeisydd ifanc |
|-----------------------------------|-------------------------------------|
| | |

3.

Edrychwch ar ddatganiad i'r wasg Aled Morgan Hughes. Sut mae'r datganiad yn tynnu sylw at y ffaith ei fod yn fachgen lleol? Nodwch y darnau perthnasol o'r datganiad.

- Defnyddio gair yn y dafodiaith leol
- Cyfeiriad at gysylltiad ei deulu â'r ardal
- Sut mae'n teimlo am yr ardal
- Sylw am y teulu, er mwyn i bobl wybod pwy yw Aled
- Problemau'r ardal leol

4.

Tynnwch saith llinell i gysylltu pob gair â'r diffiniad cywir:

| | |
|------------------|---|
| di-ben-draw | yn llawn angerdd, teimlad cryf dros rywbeth |
| ffynnu | diddiwedd, heb ddiwedd |
| heriau | wrth ei fodd |
| cenedlaethau | diffyg trefn |
| anhrefn | llwyddo |
| angerddol | problemau |
| ar ben ei ddigon | Mwy nag un genhedlaeth, pawb sydd wedi'u geni tua'r un adeg |

5.

Dychmygwch eich bod chi'n 20 oed ac yn sefyll yn etholiadau'r Cynulliad. Ysgrifennwch ddatganiad i'r wasg amdanoch chi. Gallwch wneud hyn mewn paruau os ydych chi eisiau, gan ddewis un ohonoch chi i sefyll fel ymgeisydd.

Efallai y bydd angen i chi greu rhai ffeithiau, ond llenwch y bylchau yn y datganiad hwn ac ychwanegu eich syniadau eich hun. Byddwch yn ofalus gyda'r rhannau sydd mewn print trwm – bydd rhaid ichi ddewis un o'r opsiynau.

YN DEWIS BACHGEN LLEOL / MERCH LLEOL (defnyddiwch air tafodieithol efallai) YN YMGEISYDD YN SEDD

Mae *(enw'r blaid)* wedi dewis *(eich enw)* o
(enw'r lle) yn ymgeisydd **yn/ym/yn** *(enw'r etholaeth)*
ar gyfer etholiad y Cynulliad fis Mai eleni.

Mae yn siaradwr Cymraeg rhugl, a chafodd **ei addysg/ei haddysg** yn Ysgol
Gynradd ac Ysgol Gyfun/Uwchradd, gan fynd
ymlaen i astudio/i weithio yn

Roedd *(eich enw)* **ar ben ei ddigon/ar ben ei digon** o gael **ei ddewis/ei dewis**, yn arbennig oherwydd

(rhowch eich rhesymau)

“Mae fy nheulu'n byw ac yn gweithio yn yr etholaeth ers , ac rwyf
yn teimlo'n hynod angerddol tuag at hanes, pobl a dyfodol yr ardal,” **meddai'r mab/meddai'r ferch** i

“Fel **bachgen lleol/merch leol** (*defnyddiwch air tafodieithol efallai*), rwy'n ymwybodol iawn o'r heriau sy'n wynebu ein cymunedau o ddydd i ddydd. Er enghraifft,

“Does gen i ddim amheuaeth o gwbl y byddai llywodraeth *(enw'r blaid)*
yn helpu *(enw'r etholaeth)* i ffynnu. Os caf fy ethol, rwy'n addo
dros yr etholaeth.”

Darllenwch eich datganiad i weddill y dosbarth. Ar ôl clywed sawl datganiad, i bwy arall yn y dosbarth y byddech chi'n pleidleisio?